

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL: 72/2024

DYDDIAD CYHOEDDI: 08/10/2024

Adroddiad Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru 2024: adroddiad cam yr haf

Adroddiad Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru 2024: adroddiad cam yr haf

Anthony Lydall, Strategic Research and Insight



Barn yr ymchwilydd ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â:
Tîm Ymchwil a Mewnwelediadau
Croeso Cymru
Grŵp Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: twristiaethymchwil@llyw.cymru

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

ISBN: 978-1-83625-699-1
8 Hydref
© Hawlfraint y Goron 2024



Mae'r cynnwys i gyd ar gael o dan Fersiwn 3.0 Trwydded Agored y Llywodraeth ac eithrio lle nodir yn wahanol.

<https://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/cymraeg/version/3/>

Cynnwys

1. Prif ganfyddiadau	2
2. Cefndir a methodoleg	3
3. Perfformiad dros yr Haf	4
4. Archebu Ymlaen Llaw a Hyder	14
5. Ymwybyddiaeth a Diddordeb mewn Tourism Exchange Great Britain(TXGB)	17

1. Prif ganfyddiadau

Perfformiad dros yr haf yn cael ei effeithio gan dywydd gwael

- 1.1 Mae oddeutu un o bob chwech (16%) o fusnesau wedi cael rhagor o ymwelwyr yr haf hwn o'i gymharu â'r haf diwethaf, ac mae 46% wedi cael oddeutu'r un lefel. Fodd bynnag, mae 38% wedi cael llai o ymwelwyr.
- 1.2 Y rheswm mwyaf cyffredin a nodwyd dros gael llai o ymwelwyr oedd 'y tywydd' (gan 55% o'r ymatebwyr). Yna nodir 'diffyg incwm gwario gan bobl' (42%).
- 1.3 Mae'r gyfradd o fusnesau sy'n cael llai o ymwelwyr yn gorbwysu'r gyfradd gafodd ragor o ymwelwyr ym mhob sector ac yn y pedwar rhanbarth yng Nghymru.

Arosiadau byrrach, munud olaf

- 1.4 Mae sylwadau agored yn dangos bod y diwydiant wedi profi tuedd at arosiadau byrrach, munud olaf yr haf hwn. Credir mai'r tywydd ac incwm gwario yw'r prif resymau dros y duedd hon wrth i rai ymwelwyr aros i weld rhagolygon y tywydd a pheidio archebu arosiadau wythnos lawn, ond yn hytrach 3-4 noson.

Lefelau deiliadaeth ar adegau prysur yr haf

- 1.5 Roedd deiliadaeth ystafell net yn y sector â gwasanaeth yn 84% ym mis Gorffennaf a 87% ym mis Awst. Roedd deiliadaeth uned net yn y sector hunanddarpar yn 83% ym mis Gorffennaf a 87% ym mis Awst. Roedd deiliadaeth safle net yn y sector meysydd carafannau a gweryslla yn 79% ym mis Gorffennaf a 82% ym mis Awst (gweler tudalen 11 am ragor o wybodaeth).

Ymwybyddiaeth a diddordeb mewn Tourism Exchange Great Britain (TXGB)

- 1.6 Roedd un o bob deg (10%) o weithredwyr yn ymwybodol o TXGB cyn y cyfweliad. O'r rhain, mae oddeutu (15%) naill ai'n ei ddefnyddio ar hyn o bryd neu'n bwriadu ei ddefnyddio.
- 1.7 Ar ôl clywed disgrifiad o TXGB, mae 14% o'r rhai nad oeddent yn ymwybodol ohono o'r blaen yn dweud ei fod yn 'bendant' yn swnio fel rhywbeth y byddai ganddynt ddiddordeb mewn dysgu mwy amdano (tebyg iawn i'r llynedd), a dywed 23% arall ei fod 'efallai' yn rhywbeth yr hoffent ddysgu mwy amdano (roedd yn 42% pan holwyd y llynedd).

Lefelau hyder

- 1.8 Mae 14% o weithredwyr yn dweud eu bod yn 'hyderus iawn' ynghylch rhedeg y busnes yn broffidiol eleni, ac mae 38% arall yn dweud eu bod yn 'weddol hyderus'. Mae costau gweithredu uchel ac adegau prysur canol yr haf siomedig wedi cnocio hyder nifer o fusnesau

ynghylch gwneud elw. Fodd bynnag, dywed rhai eu bod yn obeithiol am archebion munud olaf yn yr hydref.

2. Cefndir a methodoleg

Beth yw Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru?

2.1 Cynlluniwyd Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru i roi adborth cyflym ar sut mae'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru yn perfformio ar gyfnodau allweddol yn ystod y flwyddyn. Mae'r cam hwn yn edrych ar berfformiad haf 2024. Y pwnc ad-hoc y tro hwn yw'r ymwybyddiaeth a diddordeb yn TXGB.

Sut y cynhaliwyd yr arolwg?

2.2 Rydym wedi cynnal 900 o gyfweiliadau dros y ffôn. Mae canlyniadau'r cwestiynau a ofynnwyd i bawb yn gywir i $\pm 3.3\%$. Mae cydbwysedd y sampl fesul rhanbarth a sector yn adlewyrchu'n fras y diwydiant yng Nghymru.

Sector / Rhanbarth	Gogledd	Canolbarth	De-orllewin	De-ddwyrain	Cyfanswm
Llety â gwasanaeth	93	43	76	42	254
Llety Hunanddarpar	92	51	84	32	259
Meysydd carafannau / gweryslla	33	24	25	9	91
Hostelau	10	6	7	4	27
Atyniadau	39	22	28	22	111
Gweithredwyr gweithgareddau	19	8	13	7	47
Bwytaï / tafarndai / caffis	36	16	32	27	111
Cyfanswm	322	170	265	143	900


2.3 Mae 63% o'r busnesau yn y sampl yn cael eu graddio gan Croeso Cymru. Mae'r samplau sydd wedi eu graddio a'r samplau heb eu graddio wedi eu gwasgaru ar draws y gwahanol ranbarthau a sectorau ar wahân i fwytaï / tafarndai / caffis, nad ydynt yn cael eu graddio.

2.4 Cynhaliwyd pob cyfweiliad dros y ffôn gyda pherchnogion neu reolwyr busnesau rhwng 27 Awst a 9 Medi.

3. Perfformiad dros yr Haf

Perfformiad dros yr Haf fesul sector

C1 "Faint o gwsmeriaid ydych chi wedi'u cael yr haf hwn o gymharu â'r haf diwethaf?"



Mae atebion 'ddim yn gwybod' a 'ddim yn berthnasol' wedi eu heithrio

Maint y
sampl: 842

Haf siomedig

- 3.1 Mae oddeutu un o bob chwech (16%) o fusnesau wedi cael rhagor o ymwelwyr yr haf hwn o'i gymharu â'r haf diwethaf, ac mae 46% wedi cael oddeutu'r un lefel. Fodd bynnag, mae 38% wedi cael llai o ymwelwyr. Mae'r gyfradd o fusnesau sy'n cael llai o ymwelwyr yn gorbwyso'r gyfradd gafodd ragor o ymwelwyr ym mhob sector ac yn y pedwar rhanbarth yng Nghymru.
- 3.2 Dangosodd baromedr 2023 fod pob sector yn is na haf 2022 ar wahân i atyniadau, felly gwneir perfformiad haf eleni o'i gymharu â haf 2023 a oedd hefyd yn is na'r haf blaenorol.


"Cawsom fis Gorffennaf isel iawn ond mis Awst uchel iawn felly roedd yn lefelu i fod yr un fath â'r llynedd"
Atyniad, Gogledd

"Gobeithio y bydd y flwyddyn nesaf yn well na hon. Mae llawer o fusnesau yn yr ardal yn ei gweld hi'n anodd."
Llety â Gwasanaeth, De-orllewin

- 3.3 Trafodir ffactorau sy'n effeithio ar berfformiad dros yr haf nes ymlaen yn C2 a C3.

Perfformiad yr Haf fesul rhanbarth

C1 "Faint o gwsmeriaid ydych chi wedi'u cael yr haf hwn o gymharu â'r haf diwethaf?"



Mae atebion 'ddim yn gwybod' a 'ddim yn berthnasol' wedi eu heithrio

Perfformiad siomedig yn cael ei adlewyrchu ar draws pob rhanbarth

3.4 Mae'r gyfradd o fusnesau sy'n cael llai o ymwelwyr yn gorbwysu'r gyfradd gafodd ragor o ymwelwyr ym mhob sector ac yn y pedwar rhanbarth, er bod De-orllewin Cymru wedi perfformio'n well na gweddill Cymru. Gan fod maint y sampl o fusnesau sy'n perfformio'n well yn fach, nid oes rheswm clir pam bod y rhanbarth De-ddwyrain yn perfformio'n well, ond mae awgrym bod digwyddiadau mawr wedi cyfrannu.

"Rydym wedi bod yn brysurach, efallai oherwydd yr holl ddigwyddiadau mawr sy'n cael eu cynnal"

Bwyty, De-orllewin

"Fe wnaeth digwyddiadau a chyngherddau yn yr ardal ein helpu i gael mwy o gwsmeriaid"

Caffi, De-ddwyrain

"Cawsom ychydig mwy o gwsmeriaid na'r llynedd oherwydd cawsom lawer o gwsmeriaid yn dychwelyd ac ni wnaethom hyrwyddo ein busnes fwy na'r llynedd"

Llety Hunanddarpar, De-orllewin

"Mae yna bobl sy'n berchen cabannau tebyg yn fy ardal ac maen nhw wedi dioddef fwy na fi felly rwy'n lwcus iawn"


Llety Hunanddarpar, De-orllewin

"Mae costau byw ar i fynd... mae ar bobl ofn gwario arian"

Llety â Gwasanaeth

Rhesymau dros fod yn brysurach yr haf hwn

C2 "A oes unrhyw resymau penodol pam eich bod wedi cael mwy o gwsmeriaid yr haf hwn o gymharu â'r haf diwethaf?"



Maint y sampl: 134

Holwyd C2 i fusnesau a gafodd fwy o ymwelwyr eleni (C1)

Cwsmeriaid sy'n dychwelyd yn dod â rhywfaint o sefydlogrwydd i rai busnesau

3.5 Cwsmeriaid sy'n dychwelyd yw sylfaen nifer o fusnesau twristiaeth, yn enwedig y rhai sydd wedi bod yn masnachu ers tro ac sydd yn y busnes hunanddarpar. Cwsmeriaid sy'n dychwelyd yn dod â rhywfaint o sefydlogrwydd yn ystod amseroedd heriol. Fodd bynnag, mae'r busnesau hyn dal i fod mewn perygl o ffactorau sy'n cael effaith andwyol ar dwristiaeth i ryw raddau, megis tywydd gwael.

"Oni bai am ein gwesteion sy'n dychwelyd yn rheolaidd, efallai y byddai'r busnes yn mynd i'r wal"

Llety Hunanddarpar, De-orllewin

"Dim ond busnes pobl sy'n dychwelyd rydym yn ei gael ac ychydig iawn o ymholiadau newydd"

Llety Hunanddarpar, Gogledd

Archebion munud olaf

3.6 Mae sylwadau eraill yn awgrymu bod tuedd tuag at archebion munud olaf yr haf hwn. Mae tywydd anrhagweladwy i'w weld wedi chwarae ei ran wrth i rai ymwelwyr aros i weld sut fydd

y tywydd cyn archebu. Mae rhai busnesau wedi elwa o archebion munud olaf yn cyrraedd, er y gall hyn brofi nerfau'r gweithredwyr.

"Maent wedi bod yn hwyr yn archebu, yn hwyr iawn, yn frawychus o hwyr"
Llety Hunanddarpar, De-orllewin

"Roedd cryn dipyn o boeni ynghylch mis Awst yn un tawel ond yna cawsom lawer o archebion munud olaf"
Llety â Gwasanaeth


Gall atyniadau dan do elwa o dywydd gwael

3.7 Mae'r tywydd yn rheswm allweddol dros berfformiad cyffredinol siomedig yr haf ar draws y diwydiant, a drafodir nesaf dan C3. Fodd bynnag, gall tywydd glawog fod yn dda ar gyfer atyniadau dan do.

"Rydym wedi bod yn brysur. Mae'r tywydd gwael wedi helpu."
Atyniad, Gogledd

Rheswm dros fod yn dawelach yr haf hwn

C3 "A oes unrhyw resymau penodol pam eich bod wedi cael llai o gwsmeriaid yr haf hwn o gymharu â'r haf diwethaf?"



Dehongliad cyffredinol dros fod yn dawelach yr haf hwn

3.8 Mae busnesau wedi ateb C3 hyd eithaf eu gwybodaeth yn seiliedig ar batrymau archebu a chanslo, adborth gan gwsmeriaid ac ymholwyr a'u canfyddiadau eu hunain. Mae hyn yn rhoi syniad clir o'r ffactorau cyffredinol sy'n effeithio'n andwyol ar dwristiaeth, ond mae'n werth nodi nad yw'r gweithredwyr eu hunain yn gwybod yr union resymau bob amser.

Perfformiad yn cael ei effeithio gan y tywydd

3.9 Y tywydd sy'n cael ei nodi amlaf fel rheswm dros gael llai o gwsmeriaid yr haf hwn. Mae wedi bod yn arbennig o niweidiol i'r sector carafannau a gweryslla, gyda 74% o'r rhai a dderbyniodd lai o ymwelwyr yn nodi'r tywydd fel rheswm.

3.10 Mae'r tywydd wedi effeithio ar berfformiad mewn sawl ffordd, yn cynnwys ysgogi tuedd i aros tan y munud olaf cyn archebu, canslo archebion a chwtogi arosiadau. Os oes diffyg gweithgareddau bob tywydd mewn ardal yna mae busnesau twristiaeth yn yr ardal honno yn fwy tebygol o gael pobl yn canslo a chwtogi arosiadau.

"Blwyddyn echrydus. Bydd pobl yn troi'i fyny os ydynt yn gwybod bod y tywydd am fod yn ffafriol."

Maes carafannau, Gogledd

"Roedd y tywydd yn ofnadwy felly rodd pobl yn canslo neu'n aros am 3 i 4 noson yn unig ac yna gadael am eu bod yn gaeth i'r lle Gwely a Brechwast oherwydd y tywydd"
Llety â Gwasanaeth

"Mae pobl yn gadael pethau tan y funud olaf. Maent yn aros i weld sut mae'r tywydd cyn archebu."

Gweithredwr gweithgareddau, De-orllewin

Sut oedd tywydd yr haf eleni'n cymharu â hafau blaenorol?

- 3.11 Yn ôl y Swyddfa Dywydd, mae'r tywydd yng Nghymru eleni wedi bod yn oerach na'r cyfartaledd ym mis Mehefin a Gorffennaf, yn bennaf oherwydd gwyntoedd gogleddol sy'n dod ag aer oer o'r Arctig i'r DU.
- 3.12 Roedd Haf 2023 yng Nghymru'n gynhesach na'r cyfartaledd ond yn wlypach a llai braf na'r cyfartaledd, yn enwedig ym mis Gorffennaf, pan ddaeth lleoliad anffafriol jetlif â chyfres o dywydd gwlyb a gwyntog.
- 3.13 Roedd Haf 2022 fodd bynnag yn sych, heulog a chynnes o'i gymharu â'r cyfartaledd.
- 3.14 Felly, er nad oedd yr haf eleni'n rhy ddrwg o'i gymharu â'r llynedd, roedd yn llai ffafriol o'i gymharu â 2022.

Diffyg incwm gwario

- 3.15 Ynghyd â'r tywydd, diffyg incwm gwario yw'r rheswm allweddol arall dros berfformiad gwan y diwydiant eleni.

"Rydym wedi bod yn annaturiol o dawel. Mae pobl yn poeni'n ofnadwy am arian. Maent yn dod a holi a oes gostyngiad os oes dau ohonynt. Rydym wedi bod yn rhoi gostyngiadau oherwydd nad oes gan bobl arian."

Gweithredwr gweithgareddau, De-orllewin

"Bu'n llawer tawelach eleni. Does gan bobl ddim arian."

Maes carafannau, Gogledd

- 3.16 I rai busnesau, nid problem sy'n effeithio ar lefelau cwsmeriaid yn unig yw diffyg incwm gwario, mae cwsmeriaid hefyd yn gwario llai pan maent yno.

"Nid yw pobl yn gwario gymaint - maent yn cael prif gwrs a diod neu gacen a diod ond nid y ddau, fel roeddent yna arfer ei gymryd."

Bwyty, Canolbarth

"Rydym wedi sylwi bod llawer o bobl yn bwyta pot noodle a brechdanau yn eu hystafelloedd a ddim yn mynd allan i fwyta"

Llety â Gwasanaeth

Arosiadau byrrach

3.17 Mae rhai wedi dweud bod arosiadau yn amlwg wedi mynd yn fyrrach eleni. Gall hyn achosi mwy o waith i weithredwyr gyda chyfnodau cyfnewid amlach.

"Gwahanol fathau o archebion eleni - 3/4 diwrnod yn hytrach nag wythnos lawn, felly mwy o waith"

Llety Hunanddarpar, Gogledd

"Mae'r patrwm archebu'n wahanol iawn. Nid yw mwy o archebion yn golygu mwy o elw, dim ond mwy o waith a chostau. Maent yn archebion byr rybudd ac yn fyrrach o ran hyd."

Llety Hunanddarpar, De-orllewin


Sut mae'r canfyddiadau hyn yn cymharu ag ymchwil arall?

3.18 Mae'r canfyddiadau uchod ynghylch diffyg incwm gwario ac arosiadau byrrach, munud olaf yn gyson â'r [Arolwg Tracio Defnyddwyr Twristiaeth y DU](#) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar [llyw.cymru](#).

3.19 Adroddodd y Tracio am arwyddion o ddefnyddwyr yn debygol o wario llai yr haf hwn drwy benderfynu gwneud archebion funud olaf, triapiau byrrach, mwy o chwilio am bethau am ddim a llai o wario a bwyta allan. Nododd y Tracio bod (cyfieithwyd o'r Saesneg) *"Bron i 7 o bob 10 o'r boblogaeth [DU] yn ystyried eu hunain wedi eu 'taro'n galed' neu'n 'bod yn bwyllog a gofalus' o ganlyniad i'r argyfwng [costau byw], ac mae dros hanner y rhai sy'n bwriadu mynd ar drip yn cytuno'n llwyr ei fod yn dylanwadu ar eu triapiau domestig dros nos."* Mae'r Tracio hefyd yn nodi bod (cyfieithwyd o'r Saesneg) *"Y rhai sy'n bwriadu ymweld â Chymru'n ymddangos fel petaent yn hynod agored i sefyllfa ariannol dynn."*

Perfformiad fesul marchnad

C4 "A yw nifer y cwsmeriaid yr haf hwn o ... wedi bod i fyny, i lawr neu'r un peth o'i gymharu â'r haf diwethaf?"



Maint y sampl: 677 – 777

Mae atebion 'ddim yn gwybod' a 'ddim yn berthnasol' wedi eu heithrio o'r uchod

Dywed rhai bod ymwelwyr o Ewrop wedi dychwelyd yr haf hwn

3.20 Mae marchnadoedd Cymru a'r DU y tu allan i Gymru wedi perfformio'n siomedig yr haf hwn, fel y gwnaeth y llynedd (o gymharu 2023 yn erbyn 2022).

3.21 Mae'r farchnad dramor yn gyffredinol is hefyd. Wedi dweud hynny, mae rhai sectorau / rhanbarthau, ar gyfartaledd, wedi cael mwy o ymwelwyr o dramor:

- Canolbarth Cymru - nododd 33% o fusnesau eu bod wedi cael mwy o ymwelwyr o dramor, yn erbyn 22% oedd wedi cael llai
- Meysydd carafannau - mae 34% o fusnesau wedi cael mwy o ymwelwyr o dramor, yn erbyn 29% sydd wedi cael llai
- Hostelaau - mae 8 o bob 22 o fusnesau wedi cael mwy o ymwelwyr o dramor, yn erbyn 5 sydd wedi cael llai


3.22 Mae nifer o fusnesau wedi dweud fod y farchnad Ewropeaidd, yn enwedig yr Almaen a'r Iseldiroedd, wedi codi eleni o'i gymharu â blynyddoedd diwethaf wedi Covid.

*"Rydym wedi cael mwy o ymwelwyr o'r Almaen a'r Iseldiroedd yr haf hwn. Mae ymwelwyr o dramor yn bendant yn dychwelyd yn dilyn Covid."
Maes carafannau, Canolbarth*

*"Rydym wedi cael llawer mwy o ymwelwyr rhyngwladol - o'r Almaen a'r Iseldiroedd. Mae safleoedd Cadw eraill yn dweud yr un fath."
Atyniad, De-ddwyrain*

Lefelau deiliadaeth yr haf (gweithredwyr llety)

**C6 "Faint o'ch capasiti oedd ar gael a archebwyd ar gyfer ...?"
(dangosir deiliadaeth sector amcangyfrifedig)**



Holwyd C6 i weithredwyr llety. Mae atebion 'ddim yn gwybod' a 'ddim yn berthnasol' wedi eu heithrio. Mae'r lefelau deiliadaeth a ddangosir wedi'u pwysoli yn ôl maint y busnes.

Deiliadaeth ar ei uchaf ym mis Awst


3.23 Roedd deiliadaeth ar ei uchaf ym mhob un o'r tri sector llety ym mis Awst, fel y mae gan amlaf bob blwyddyn.

Gwahaniaethau fesul rhanbarth

- 3.24 Roedd lefelau deiliadaeth yn y sectorau â gwasanaeth a hunanddarpar yn y cyfnod mis Mehefin - Awst yn gyson ar draws y pedwar rhanbarth yng Nghymru. Yn y sector carafannau a gwersylla, roedd busnesau yng Ngogledd a De-orllewin Cymru'n brysurach na'r rhai yn y canolbarth a de-ddwyrain Cymru.
- 3.25 Mae'r tabl isod yn dangos deiliadaeth fesul rhanbarth ar gyfer tri mis yr haf, Mehefin - Awst:

Deiliadaeth Mehefin - Awst					
Sector / Rhanbarth	Gogledd	Canolbarth	De-orllewin	De-ddwyrain	Cymru gyfan
Llety â Gwasanaeth	85%	84%	85%	85%	85%
Llety Hunanddarpar	81%	79%	83%	82%	83%
Meysydd carafannau a gwersylla	80%	73%	83%	72%	79%

Deiliadaeth mis Awst ymlaen llaw yn erbyn terfynol



Gwelwyd nifer o archebion munud olaf yr haf hwn

- 3.26 Fel yr oedd yng nghanol mis Mehefin yn y cam baromedr blaenorol, roedd deiliadaeth mis Awst yn y sector â gwasanaeth yn 70%. Llwyddodd y sector i lenwi oddeutu hanner y lle oedd yn weddill yn y diwedd. Profodd y sector hunanddarpar batrwm tebyg o archebu; llai felly yn y sector carafannau a gwersylla.

"Cafwyd nifer o archebion munud olaf... nid oedd mis Gorffennaf ac Awst yn edrych yn iach hyd nes ddiwedd mis Mehefin"
Llety Hunanddarpar, De-orllewin

3.27 Mae'r duedd archebu munud olaf wedi'i gwneud hi'n anodd i rai gweithredwyr gynllunio, yn enwedig yn nhermau lefelau staffio.

"Mae eleni wedi bod yn anoddach fyth... Mae'r archebion wedi bod yn rhai munud olaf go iawn, e.e. ddeuddydd ymlaen llaw, felly ni allaf hyd yn oed ddweud wrth fy staff a fyddent yn gweithio'r wythnos ganlynol."

Llety â Gwasanaeth

"Ni allwn gynllunio gan fod popeth yn funud olaf"


Llety â Gwasanaeth, De-orllewin

4. Archebu Ymlaen Llaw a Hyder

Archebion ymlaen llaw (gweithredwyr lleety)

C7 "Faint o'ch capasiti sydd ar gael sydd wedi'i archebu ar gyfer ...?"

(Dangosir amcangyfrif o feddiannaeth wedi'i harchebu)



Mae'r cyfartaledd deiliadaeth a archebwyd ar gyfer pob mis ymysg y busnesau sy'n cymryd archebion ar gyfer y mis hwnnw. Mae'r lefelau deiliadaeth a ddangosir wedi'u pwysoli yn ôl maint y busnes.

Gobeithion am archebion munud olaf

4.1 Mae'r siart uchod yn dangos lefelau deiliadaeth ar gyfer y misoedd i ddod ar adeg y cyfweld, ond roedd y duedd gynyddol i archebu munud olaf yn ei gwneud hi'n anodd i weithredwyr ragweld sut fydd y misoedd hyn mewn gwirionedd. Mae rhai'n gobeithio y bydd lefelau deiliadaeth yn llawer gwell na mae'r ffigurau presennol yn ei awgrymu. Mae sylwadau'n awgrymu bod rhai busnesau yn eithaf dibynnol ar archebion munud olaf yn cael eu gwneud yn hytrach na dod o hyd i ffyrdd i atgyfnerthu busnes ymhellach ymlaen llaw

"Rydym yn gobeithio am archebion munud olaf e.e. pobl yn edrych ym mis Medi ar gyfer mis Tachwedd"

Llety Hunanddarpar, Gogledd

"Rydym yn aml yn cael archebion munud olaf ar gyfer y Nadolig, gyda phobl yn dod i ymweld â pherthnasau"

Llety Hunanddarpar, Canolbarth


Gwahaniaethau fesul rhanbarth

4.2 Mae De-orllewin Cymru'n edrych yn addawol ar gyfer llety hunanddarpar yn gynnar yn yr hydref, ac mae meysydd carafannau a gweryslla yn gwneud yn well ar gyfer archebion ymlaen llaw yng Ngogledd Cymru.

Deiliadaeth Medi a Hydref					
Sector / Rhanbarth	Gogledd	Canolbarth	De-orllewin	De-ddwyrain	Cymru gyfan
Llety â Gwasanaeth	63%	69%	64%	57%	63%
Llety Hunanddarpar	53%	45%	67%	50%	62%
Meysydd carafannau a gweryslla	64%	53%	58%	38%	60%

Hyder mewn rhedeg yn broffidiol

C8 "Pa mor hyderus ydych chi am redeg y busnes yn broffidiol eleni?"



Brwydro â chostau uchel

4.3 Mae gweithredwyr twristiaeth wedi gweld costau gweithredu'n codi ar draws nifer o feysydd busnes eleni ac felly mae wedi dod yn anoddach parhau'n broffidiol. Tymor prysuraf yr haf yw'r amser o'r flwyddyn mae gweithredwyr yn edrych ymlaen ato fwyaf fel arfer o ran gwneud i fyny am fisoedd llai hyfyw y flwyddyn. Fodd bynnag, mae lefelau ymwelwyr is na'r hyn roedd nifer o fusnesau'n gobeithio amdano wedi effeithio'r hyder o gael dau ben llinyn ynghyd eleni.

"Byddwn yn cadw pen uwchlaw'r dŵr eleni, os byddwn yn lwcus"
Llety Hunanddarpar, Gogledd

"Rydym wedi gorfod aberthu llawer eleni a lleihau cyllidebau"
Atyniad, Gogledd

"Proffidiol iawn eleni"


Atyniad (*dan do yn bennaf a rhan o sefydliad mwy*), De-ddwyrain

Cyfnod ansicr o'i gymharu â chyn 2020

- 4.4 Mae lefelau hyder yn debyg i adeg yma'r llynedd. Arferai blynnyddoedd cyn Covid weld oddeutu 80% o weithredwyr yn teimlo'n hyderus adeg yma o'r flwyddyn. Ers y pandemig ac yna chwyddiant uchel a'r argyfwng costau byw, mae'r gyfran o weithredwyr sy'n teimlo'n hyderus wedi cwmpo'n sylweddol a'r gyfran sy'n ateb 'ddim yn gwybod' i'r uchod a chwestiynau tebyg ynghylch hydref wedi codi'n arw.

5. Ymwybyddiaeth a Diddordeb mewn Tourism Exchange Great Britain(TXGB)


Ymwybyddiaeth o TXGB



Ymwybyddiaeth yn parhau'n isel

5.1 Mae'r rhan fwyaf (90%) o fusnesau'n dweud nad oeddent wedi clywed am TXGB cyn cael eu holi yn yr arolwg hwn. Dyma'r un canlyniad a phan ofynnwyd y cwestiwn ym maromedr yr haf y llynedd.

Bwriadau i ddefnyddio TXGB (os yn ymwybodol)



Ymrwymiad yn parhau'n weddol isel

5.2 Mae 15% o weithredwyr yn dweud eu bod naill ai'n ei ddefnyddio ar hyn o bryd neu'n bwriadu ei ddefnyddio. Mae hyn yn cymharu â 21% amser yma y llynedd, er nad yw'r gwahaniaeth yn sylweddol oherwydd maint y sampl.

Adborth gan ddefnyddwyr presennol

- 5.3 Gan mai dim ond naw defnyddiwr TXGB sydd yn y sampl, mae adborth yn brin ond mae'r pwyntiau allweddol canlynol wedi'u nodi isod.

Mae'n gweithio'n dda iawn i rai

- 5.4 Dywedodd pedwar o'r naw defnyddiwr yn y sampl bod TXGB yn gweithio'n dda iawn i'w busnes, gydag archebion rheolaidd yn dod drwyddo.

"Mae TXGB yn gwneud yn dda iawn i ni. Mae'n ymddangos yn dda i'n cwsmeriaid."
Atyniad, Gogledd

"Credwn ei fod yn gweithio'n dda iawn i'n cwmni ni"
Maes carafannau, Canolbarth

Mae eraill yn mynegi barn wahanol

- 5.5 Dywedodd pedwar o'r naw defnyddiwr yn y sampl nad oedd TXGB wedi gweithio iddyn nhw, heb ddim archebion neu fawr ddim archebion yn dod drwyddo.

"Nid wyf yn credu fy mod wedi cael unrhyw archeb drwy TXGB eleni. Roedd yna ychydig y llynedd. Nid yw pobl i'w gweld yn gwybod sut i'w ddefnyddio. Nid yw'n hawdd ei ddefnyddio. Yn y diwedd maent yn ffonio ac yn archebu hefo ni'n uniongyrchol."

Llety Hunanddarpar, Canolbarth


"Rwyf wedi bod gyda TXGB ers 6 mis a heb gael unrhyw archebion drwyddyn nhw"
Llety Hunanddarpar, Gogledd

Diddordeb mewn dysgu mwy

- 5.6 Darllenwyd y disgrifiad hwn i ymatebwyr nad oeddent yn ymwybodol o TXGB cyn y cyfweiliad hwn:

"Mae TXGB yn derm Saesneg sy'n golygu Tourism Exchange Great Britain sef llwyfan digidol sy'n cael ei hwyluso gan Croeso Cymru a VisitBritain. Mae'n galluogi busnesau twristiaeth i gysylltu unwaith â hwb canolog drwy ddefnyddio un ai eu system archebu eu hunain neu feddalwedd am ddim i'w gwneud hi'n hawdd rhannu argaeledd a phrisiau yn fyw ar draws sawl sianel werthiant. Gall TXGB helpu busnesau twristiaeth i gyrraedd rhagor o gwsmeriaid, cynyddu archebion, lleihau gwaith gweinyddol a'r perygl o archebu ddwywaith."

C13 "Ydy TXGB yn swnio fel rhywbeth yr hoffech chi ddysgu mwy amdano?"



Llai o ddiddordeb na'r llynedd

5.7 Dywedodd 14% o'r rhai nad oeddent yn ymwybodol o TXGB ei fod yn 'bendant' yn swnio fel rhywbeth yr hoffent ddysgu mwy amdano, a dywedodd 23% arall 'efallai' ei fod. Mae diddordeb llawer uwch ymysg gweithredwyr llety.

"Rydym ar lawer o wahanol lwyfannau felly byddem yn hoffi rhywbeth i'w wneud yn symlach"

Llety Hunanddarpar, Gogledd


"Mae'n swnio'n ddiddorol - pam ddim?"

Llety â Gwasanaeth, Gogledd

5.8 Eleni bu i'r atebion symud o 'efallai' i 'na'. Pan holwyd y llynedd, atebodd 42% 'na' i'r cwestiwn hwn. Mae'r atebion 'na' bellach yn 63%.

5.9 Rydym yn trafod pob un o'r themâu allweddol yn eu tro isod, gan ddechrau gyda'r rhwystrau.

Rhwystrau i ddefnyddio TXGB



Holwyd C14 i'r rhai nad oeddent yn bwriadu defnyddio TXGB os oeddent yn ymwybodol ohono (C11) neu â dim diddordeb dysgu mwy os nad oeddent yn ymwybodol (C13)

Yn hapus gyda dulliau presennol

- 5.10 Yn hapus gyda dulliau archebu presennol yw'r prif reswm dros beidio bod â diddordeb mewn archwilio TXGB, fel yr oedd y llynedd.
- 5.11 Efallai bod peth dryswch ynghylch beth yn union yw TXGB (er bod disgrifiad wedi'i ddarllen allan yn ystod y cyfweiliadau) ac nad yw o anghenraid yn annibynnol ar ei gilydd o lwyfan archebu sydd eisoes yn bodoli.

"Rydym ni gyda Pitchup ac mae gennym ein system archebu ein hunain"
Maes carafannau, Gogledd

"Rydym ni gyda West Wales Holiday Cottages a does gennym ddim diddordeb cofrestru gyda llwyfannau eraill"
Llety Hunanddarpar, De-orllewin

"Rydym yn defnyddio'r rhan fwyaf o wefannau archebu ar hyn o bryd felly nid oes angen defnyddio un arall"
Llety â Gwasanaeth, Canolbarth

Ddim yn hoff o drydydd parti a thalu comisiwn

5.12 Nid yw rhai busnesau'n hoffi'r canfyddiad o gost ychwanegol a thrydydd parti'n bwyta i faint eu helw.

"Cost arall ar gyfer archebu ac rydym yn ei chael hi'n anodd fel y mae. Mae booking.com yn cymryd llawer o'n harian (maint yr elw)."

Llety â Gwasanaeth, Gogledd

"Os yw'n mynd i gostio, anghofiwch o"

Llety â Gwasanaeth, Canolbarth

"Ddim yn hoffi trydydd parti'n ymwneud â'n busnes"

Llety Hunanddarpar, Canolbarth

Rwy'n hoffi fetio'r ymwelwyr yn gyntaf

5.13 I rai gweithredwyr, mae'r llety'n rhan o'u cartref. Maent yn hoffi gwybod pwy sy'n dod i'r eiddo ac nid ydynt eisiau colli'r rheolaeth hon.

"Mae'n well o lawer gen i siarad â phobl, i sicrhau ei fod yn dderbyniol iddyn nhw a'u bod nhw'n dderbyniol i mi, gan ei fod yn rhan o fy nhŷ."

Llety Hunanddarpar, De-orllewin

"Dim ond ymwelwyr sy'n dychwelyd rwy'n eu cymryd. Nid wyf yn cymryd neb oddi ar y stryd."

Llety â Gwasanaeth, Canolbarth

Gall archebu fod yn gymhleth

5.14 Mae rhai darparwyr gweithgaredd ac atyniadau'n dweud nad yw archebion yn syml bob amser. Wrth ymdrin â grwpiau, mae angen sgwrs y ddwy ffordd ynghylch anghenion a pha fath o archeb y dylid ei gwneud. Dywedir nad yw'n hawdd i system awtomatig gymryd lle hyn.

"Gall ein harchebion fod yn gymhleth - gwahanol brisiau ar gyfer gwahanol grwpiau oed, gwahanol gynigion, cwestiynau a ofynnir a dim ond wyneb yn wyneb neu mewn e-bost y gellir eu hateb"

Atyniad, Gogledd

"Mae angen i'n harchebion gael eu gwneud ar lafar gan fod yna wahanol lefelau"

Gweithredwr gweithgareddau, De-orllewin

Amheuaeth a fydd manteision

5.15 Mae rhai gweithredwyr yn amheus a fydd manteision i'w busnes, naill ai oherwydd rhywbeth maent wedi'i glywed gan ddefnyddwyr TXGB eraill neu eu profiad eu hunain o drydydd parti yn y gorffennol ddim yn cyflawni disgwyliadau.

"Rwyf wedi clywed pobl [busnesau] yn dweud eu bod wedi cael llawer o achosion o ganslo ganddynt"

Llety Hunanddarpar, De-orllewin

"Nid wyf yn credu y bydd yn gwneud unrhyw wahaniaeth. Mae pobl [trydydd parti] bob amser yn dweud y bydd pethau newydd yn anhygoel ac yn dod â llawer mwy o archebion i chi ond rwy'n gwybod o brofiad nad ydyn tyn gwneud hyny"

Gweithredwr gweithgareddau, De-orllewin

Rhesymau dros ymgysylltu â TXGB

Bwrw'r rhwyd yn ehangach

5.16 Mae rhai busnesau'n cydnabod yr angen i gyrraedd marchnadoedd newydd a hyrwyddo'u hunain mewn ffyrdd newydd. Mae yna ymdeimlad pa fwyaf o lwyfannau maent arnynt, y gorau.

"Byddaf yn ymchwilio iddo. Rydym wedi trio bron iawn bob dim eleni i geisio hybu archebion."

Llety Hunanddarpar, Gogledd

"Os bydd yn dod â rhagor o archebion imi yna mae hynny'n dda"

Llety Hunanddarpar, De-orllewin

"Gwahanol lwyfannau i fewngofnodi iddynt - wir, mae unrhyw beth yn dda ar gyfer cael mwy o fusnes"

Llety â Gwasanaeth, Gogledd

5.17 Mae cyrraedd marchnadoedd tramor o ddiddordeb arbennig i rai, gan mai yma maent angen rhagor o gymorth.

"Credaf y byddai ochr ryngwladol y busnes yn gwella"

Llety â Gwasanaeth, Gogledd